

Safonau Mewn Bywyd Cyhoeddus 2 Tachwedd 2015

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Yn Gosod y Safon

Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gerard Elias QC): Boneddigion a boneddigesau, croeso. Diolch o galon am ddod i glywed ail ddarlith y Comisiynydd Safonau. Ychydig o gyhoeddiadau i ddechrau: os byddwch yn clywed y larwm tân, nid ymarfer bydd hynny—dylech adael yn drefnus ac yn dawel a bydd staff yn eich cyfeirio lle i fynd.

Rwyf ar fin cychwyn, fel Comisiynydd Safonau, ar flwyddyn olaf fy apwyntiad chwe blynedd, ac efallai bod hynny'n gyfle i fyfyrion ar y pum mlynedd diwethaf—mae'r amser wedi hedfan. Fel y Comisiynydd Safonau cyntaf a benodwyd o dan Fesur 2009, cefais bwerau ymchwilio newydd mewn perthynas ag unrhyw gŵyn sy'n dod i law am ymddygiad unrhyw Aelod Cynulliad. Ar yr un pryd, roedd y Mesur yn sicrhau nad oedd y Comisiynydd mewn unrhyw ffordd o dan reolaeth y Cynulliad Cenedlaethol, ac felly rwyf wedi gallu arfer fy nyletswyddau a'm cyfrifoldebau gyda chymorth amhrisiadwy gwir annibyniaeth. Cafodd cnewyllyn rôl y Comisiynydd ei nodi'n gryno ym Mesur 2009: hybu, annog a diogelu safonau ymddygiad uchel fel rhan o swyddi cyhoeddus Aelodau'r Cynulliad. Ac, wrth gwrs, rydym wedi ceisio adlewyrchu hynny fel rhan o safonau mewn bywyd cyhoeddus yn fwy cyffredinol yng Nghymru.

Dros y pum mlynedd ddiwethaf, rydym wedi adolygu a diwygio'r prosesau ar gyfer gwneud cwynion a delio â hwy, gan wneud y broses, yn fy marn i, yn haws i'w deall i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac ar gyfer achwynwyr yn benodol, gan ddiogelu hawliau priodol yr Aelodau ar yr un pryd, wrth gwrs. Hefyd, yn raddol, rydym wedi adolygu a diwygio'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad mewn llawer o feysydd pwysig, fel cofrestru a datgan buddiannau ariannol a buddiannau eraill. Yn fy marn i, rydym wedi creu mwy o dryloywder, gan sicrhau, wrth gwrs, bod egwyddorion Nolan yn dal i ddisgleirio. Rwy'n dweud 'rydym' achos mae'r newidiadau hyn wedi digwydd â chydysyniad y Cynulliad Cenedlaethol, ac, mewn rhai achosion, mae wedi'i wneud yn ofynnol i'r Aelodau gymryd mwy o gyfrifoldeb na'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig yn flaenorol. Mae derbyn y newid hwn, sy'n caniatáu mwy o graffu gan y cyhoedd ac yn dod â mwy o dryloywder, yn adlewyrchu i raddau helaeth er clod Aelodau'r Cynulliad. Mae hynny, ynghyd

â'r cofnod o gwynion derbyniadwy dros y pum mlynedd diwethaf, yn fy ngalluogi i ddweud, yn fy marn i, ym maes safonau mewn bywyd cyhoeddus, bod y diwylliant cyffredinol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn un sy'n cydnabod yr angen hanfodol i gynnal enw da'r sefydliad yn ogystal ag enw da'r Aelodau.

Wrth gwrs, ni allwn fod yn hunanfodlon ynglŷn â hyn. Gwyliadwriaeth, fel rwyf wedi dweud sawl gwaith dros y pum mlynedd ddiwethaf, yw'r gair pwysig. Er mwyn codi proffil safonau mewn bywyd cyhoeddus, fe lansiais ddarlith y Comisiynydd Safonau. Nid wyf yn ymddiheuro, foneddigion a boneddigesau, fy mod yn mynnu bod yn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn esiampl ac yn arweinydd o ran safonau mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru, ac mae'r ddarlith yn gyfle arall i osod safonau mewn bywyd cyhoeddus yn gadarn yn yr arena gyhoeddus.

Felly, gyda phleser mawr, rwy'n gwahodd yr Arglwydd Thomas o Cwmgiedd i roi'r ail ddarlith o'r fath. Ni allaf feddwl am neb gwell i gyflwyno'r neges nac Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr. Nid oes angen unrhyw gyflwyniad ar yr Arglwydd Thomas. Mae'n falch i fod yn Gymro, wedi'i fagu yn Sir Frycheiniog, ac mae cysylltiad agos iawn ganddo â Chymru o hyd. Mae hefyd yn ddigon cyfarwydd â'r Cynulliad Cenedlaethol. Felly, gyda fy niolch personol diffuant, rwy'n gwahodd yr Arglwydd Thomas i'n hannerch. [*Cymeradwyaeth.*]

Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr (Y Gwir Anrhydeddus Yr Arglwydd Thomas o Cwmgiedd): Mae'n wirioneddol yn bleser ac yn ffrainc cael y cyfle o roi'r ail ddarlith hon. Rwy'n arbennig o falch o wneud hynny gan mai fy rhagflaenydd, yr Arglwydd Judge, a roddodd y cyntaf o'r darlithoedd hyn, y ddarlith agoriadol. Dyna oedd, mewn gwirionedd, yr araith gyhoeddus olaf a wnaeth fel Prif Ustus, ar ddiwedd ei gyfnod yn y swydd. Rwyf innau hanner ffordd drwy fy amser yn y swydd, ond mae'n gyfnod prysur ar hyn o bryd, ac rwyf am sôn yn gyflym am hynny.

Ond, cyn troi at hynny, roeddwn eisiau dweud dau beth. Yn gyntaf, roedd yn bleser cael gwahoddiad gan Gerard Elias i roi'r ddarlith hon. Nid wyf yn meddwl y gellir tanbrizio pwysigrwydd safonau, yn ystyr ehangaf y gair, yn gyhoeddus ac mewn agweddau eraill ar fywyd. Mae Cymru, yn fy marn i, wedi bod yn wirioneddol ffodus i gael Gerard Elias yn gwasanaethu yn y swydd hon i ddechrau—os gallaf eirio hynny felly, am ein bod oll yn gwasanaethu'r wladwriaeth mewn ffordd. Mae wedi gwneud cyfraniad enfawr i enw da'r Cynulliad, oherwydd mae delio â hynny weithiau'n gallu bod yn rôl anghyfforddus, sydd angen awdurdod a chyfaredd. Ond, mae wedi llwyddo i wneud hynny, os caf i ddweud, gyda sgil aruthrol. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd e'n anodd ei ddilyn, oherwydd, yn ddoeth iawn, mae'r Cynulliad wedi dweud y bydd yn swydd tymor penodol a rhaid symud ymlaen. Bydd yn anodd ei ddilyn, ond bydd yn wirioneddol hanfodol bod rhywun o statws ac, yn anad dim, rhywun annibynnol yn derbyn y rôl hon, faint bynnag mor anodd fydd dilyn ei ragflaenydd.

Yr ail beth yr hoffwn ddweud yw ei fod yn bleser mawr cael bod yma yn yr adeilad hwn. Fe dreuliais gryn dipyn o amser yn gweithio mewn adeilad arall a ddyluniwyd gan Richard Rogers ar un adeg, sef adeilad Lloyds yn Llundain. Cymerodd dipyn o amser i ddod i arfer â'r adeilad, ac roedd un neu ddau o bethau yn y cynllun ddim mor dda ac y gallent fod. Er enghraifft, nid oedd yn sylweddoli bod pawb yn gadael yr adeilad am 1 o'r gloch ac yn dod yn ôl am 2 o'r gloch—problem sy'n gyffredin ymysg broceriaid yswiriant a'r llysoedd. Ond, rwy'n deall bod yr adeilad hwn yn un godidog i weithio ynddo, er bod angen un neu ddau o fân newidiadau o bosibl. Yn bwysicach, mae'n symbol o bwysigrwydd y Cynulliad Cenedlaethol, ac felly mae'n bleser arbennig cael siarad yma. Rwy'n dweud hynny fel yr Arglwydd Brif Ustus, yn ogystal â rhywun a gafodd ei eni a'i fagu yma yng Nghymru, ac sydd wedi cymryd diddordeb agos mewn digwyddiadau.

Pan ddaeth Deddf Llywodraeth Cymru i rym—y Ddeddf Llywodraeth Cymru wreiddiol, Deddf 1998—roeddwn newydd gael fy mhenodi yn un o'r barnwyr llywyddu ar gylchdaith Cymru a Chaer, fel yr oedd ar y pryd. Gyda fy nghyd-farnwr llywyddu, Mr Ustus Maurice Kay, roeddem yn pryderu ynghylch pa newidiadau fyddai hynny'n achosi ar y pryd. Edrychom ar weithdrefnau llys i weld a oeddent wedi ystyried bod y sefyllfa gyfansoddiadol wedi newid. Ond, oherwydd natur gyfyngedig y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cymru a'i hunaniaeth gorfforaethol ryfedd iawn, os wnewch feddwl yn ôl at yr hyn yr oedd yn 1998, roedd hynny'n bennaf wedi'i gyfyngu i weld a oedd gennym weithdrefnau yn eu lle i delio â materion yn ymwneud â datganoli—er nad oedd unrhyw rai ar y pryd—i sicrhau bod y llys gweinyddol yn eistedd yng Nghymru, a oedd yn ddatblygiad enfawr, a hyfforddi'r barnwyr i'w cyfarwyddo â'r newid.

Dros y blynyddoedd, rwyf wedi cael y pleser o arsylwi tri chyfnod o ddatganoli yng Nghymru; Comisiwn Richard, gwahanu'r Cynulliad yn bŵer deddfwriaethol a Llywodraeth Cymru, Comisiwn arall o dan Syr Emyr Jones Parry, a'r Comisiwn olaf o dan Syr Paul Silk. Mae wedi bod yn ddiddorol iawn gweld, dros gyfnod byr o amser yn nhermau cyfansoddiadol, sut mae pethau wedi newid, ac, yn arbennig, y newid enfawr a ddaeth yn sgîl Rhan 4 Deddf 2006 yn dod i rym. Felly, roeddwn i'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol y bore yma i edrych ar sut y mae'r newidiadau cyfansoddiadol wedi cael eu hadlewyrchu yn y ffordd y mae'n rhaid i dair cangen y wladwriaeth weithredu gyda'i gilydd ac y mae'n rhaid iddynt gyrraedd y safonau uchaf posibl.

Fel barnwriaeth, rydym wedi addasu. Er enghraifft, yng Nghymru, yr arwydd gweladwy mwyaf amlwg o newid yw bod barnwyr bellach yn eistedd yng Nghymru yn amlach ar gyfer achosion Cymreig. Rwy'n credu ein bod wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan o ran y llys gweinyddol, er rwy'n cwyno mor aml ag y gallaf nad yw'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru yn ddigon cryf eto, a bod angen camau i'w gryfhau.

Yn ail, rydym wedi gwneud cryn dipyn i geisio helpu datblygiad y nifer o dribiwnlysoedd sydd wedi cael eu gosod, fel rhan o'r setliad datganoli, o dan gyfrifoldeb y Llywodraeth yng Nghaerdydd. Rwy'n credu ein bod wedi gwneud cynnydd bellach. Yn drydydd, ac o syndod efallai i rai, dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gallu sicrhau bod y rhai a benodwyd i swydd farnwrol yng Nghymru naill ai yn meddu ar wybodaeth briodol o'r sefyllfa wahanol yng Nghymru a chyfraith Gymreig, neu'n barod i ddysgu. Yn bedwerydd—a dyma beth rwyf eisiau siarad amdano mewn gwirionedd—mae'r angen i ddatblygu perthynas â'r Llywodraeth weithredol yng Nghaerdydd, ym Mharc Cathays, a'r Cynulliad yma. Oherwydd, mae Cymru, mewn ffordd, yn unigryw am fod ganddi ddwy neu dair cangen i'r wladwriaeth, sef corff deddfwriaethol a gweithredol, yn ogystal â rhannu barnwriaeth â Lloegr. Mae'n agwedd ar fywyd cyhoeddus sy'n bwysig iawn i'w ystyried, yn fy marn i.

Ond, rwyf am ddechrau drwy droi at sail yr egwyddorion y mae'r farnwriaeth yn gweithio

arnynt, sef ein hannibyniaeth. Mae annibyniaeth farnwrol, hyd yn oed yn y wladwriaeth fwyaf unbenathol y gallwch ddychmygu, yn rhaid absoliwt. Efallai y bydd gennych amheuron mawr ynghylch y ffaith nad yw barnwyr yn annibynnol. Mae pawb yn credu ynddo. Nid oes gwlad yn y byd nad yw'n arddel y ddelfryd hon. Ond, yn y rhan fwyaf o ddemocratiaethau lle mae annibyniaeth farnwrol wedi'i sefydlu'n iawn, mae rhywun yn gweld, rwy'n meddwl, dau agwedd iddo. Un yw annibyniaeth unigol barnwr, sy'n cael ei ddatgan yn glir yn y llw y mae pob un ohonom yn cymryd wrth ymgymryd â swydd farnwrol—y rhwymedigaeth i wneud yn iawn i bob math o bobl, yn ôl deddfau ac arferion y deyrnas hon, heb ofn na ffafr, hoffter na drwgdeimlad.

Ond, mae'r ochr annibyniaeth sefydliadol hefyd yn bwysig, ac mae hynny'n rhywbeth sydd wedi mynd drwy newid mawr iawn yn ystod y 10 mlynedd diwethaf o ran y Llywodraeth yn San Steffan ac yn Whitehall. Mae un o agweddau mawr y newid hwnnw wedi deillio o ddiwygio swydd yr Arglwydd Ganghellor. Fel bydd y rhai sy'n gyfarwydd â sut caiff y cyfansoddiad ei roi ar waith yn y Deyrnas Unedig yn gwybod, cyn 2005, roedd yr Arglwydd Ganghellor yn ymgorfforiad byw o ran gwrthod gwahanu pwerau. Roedd yn farnwr a oedd yn eistedd ac yn llywyddu dros achosion pwysig iawn. Ef oedd y Llefarydd yn Nhŷ uchaf y ddeddfwrfa ac roedd yn Weinidog Cabinet. Felly, o fewn y person hwnnw, roedd elfen o wrthod gwahanu pwerau, ac mae'n bwysig cofio bod ein cyfansoddiad wedi gweithio'n berffaith dda o fewn hynny. Rwy'n dweud fod hynny bwysig, achos pan gafodd rôl yr Arglwydd Ganghellor ei ddiwygio—nid oedd bellach yn farnwr nac yn Llefarydd y Tŷ—roedd rhaid gwneud rhywbeth i gau'r bwlch. Mae'r 10 mlynedd diwethaf wedi arwain at baradocs, sef er bod y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol wedi rhoi mwy o annibyniaeth i'r farnwriaeth oddi wrth y Llywodraeth, mewn gwirionedd, mae wedi golygu ein bod wedi gorfod ymgysylltu'n agosach â'r Llywodraeth. Mae'n baradocs rhyfedd, ond mae'n amlwg iawn yn Whitehall a San Steffan, ac mae'n bwysig iawn yng Nghaerdydd, yn fy marn i. Ond, gellir ond gwneud hyn os oes dealltwriaeth absoliwt a chdir ynghylch safonau mewn bywyd cyhoeddus. Cyn y gall gwahanol ganghennau o'r wladwriaeth ymgysylltu gyda'i gilydd, mae'n rhaid ichi ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau priodol, ac mae'n rhaid ichi weithredu gydag unplygrwydd cyflawn.

Dros y blynyddoedd diwethaf yn Llundain, rydym wedi ceisio gosod y berthynas â San Steffan a Whitehall ar sail lawer cadarnach a mwy rheoledig, a hefyd wedi ceisio darganfod sut i wneud hyn yng Nghaerdydd, oherwydd mae'r farnwriaeth yng Nghymru yn gweithredu fel trydedd gangen y wladwriaeth yma. Er enghraifft, dau faes sy'n dangos sut y mae'r farnwriaeth yn ymgysylltu yw: rhoi cyngor technegol ar y dewisiadau y gellir eu gwneud mewn deddfwriaeth ac, yn ail, ceisio sicrhau, pan fydd deddfwriaeth yn cael ei phasio, bod mecanweithiau'n bodoli

i'w rhoi ar waith. Weithiau, mae hyn yn gymharol syml—addysgu barnwyr a dosbarthu cylchlythyr—ond, ar adegau eraill, mae angen hyfforddiant manwl ac mae gofyn am newid y rheolau. Y rhyngweithiad hwn sydd wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â Chaerdydd gyda'r newidiadau i'r gyfraith ynghylch landlordiaid a thenantiaid yn y Bil tai.

Mae hynny wedi dangos bod gwir angen ymgysylltiad priodol ac y gellir ond gwneud hynny drwy ddeall safonau mewn bywyd cyhoeddus. Pam ydw i'n dweud hynny? Fel arfer, mae pobl yn meddwl fod safonau mewn bywyd cyhoeddus yn cyfeirio at y cod ymddygiad moesegol, ac ni allwn ond pwysleisio pwysigrwydd absoliwt hynny. Am flynyddoedd lawer, nid oedd modd gweithredu hebddynt. Roedd y rhan fwyaf o'n cyfansoddiad—mewn gwirionedd, cyfansoddiadau y rhan fwyaf o wledydd—yn gweithredu heb gael cod ysgrifenedig. Efallai y bydd yn syndod i chi ddarganfod na chafodd y farnwriaeth god ymddygiad ffurfiol yn ysgrifenedig tan 2004. Mae'n bleser mawr cael bod yma yng Nghaerdydd yn dweud mai Syr Malcolm Pill arweiniodd y gwaith o ddrafftio ein cod ymddygiad. Roeddem yn dilyn esiampl rhai gwledydd yn y Gymanwlad, ond roeddem ar y blaen o'r rhan fwyaf o wledydd Ewrop. Ond, nid yw hynny i ddweud nad oedd gennym safonau. Roedd gennym safonau clir iawn, ond nid oeddent wedi'u hysgrifennu yn unrhyw le.

Ochr yn ochr â hynny, fe sefydlwyd mecanwaith ar gyfer ymdrin â thorri safonau moesegol. Mae pawb sy'n fyfyrwr hanes cyfansoddiadol yn gwybod, ers Deddf Setliad 1701, bod y Senedd wedi gallu gwahardd barnwyr sy'n camymddwyn. Nid yw erioed wedi gwneud hynny, ac nid yw hynny o reidrwydd am fod ymddygiad barnwyr mor dda. Ond, rydym angen system ddisgyblu a threfnu llawer tynnach i ddelio â gorfodi cod moesegol llawer cliriach. Felly, mae'r ffaith fod y farnwriaeth wedi mynd i'r afael â hyn yn hwyr yn tanlinellu pa mor bwysig mae'r newidiadau wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf.

Ond, nid dim ond ar gyfer barnwyr y mae angen codau ymddygiad. Tasg anferth sy'n cael ei gwneud yn Llundain ar hyn o bryd yw llunio cod ymddygiad a chod safonau ar gyfer bancwyr. Efallai y byddwch yn gofyn pam. Yn amlwg, roedd pobl yn bryderus iawn am yr hyn a ddigwyddodd gyda'r argyfwng yn 2008, ac, yn ddiau, roedd rhai pobl wedi ymddwyn yn gwbl anfoesegol. Er mwyn mynd i'r afael, yn rhannol, â safonau moesegol y farchnad, llywodraethwr y banc a'r Fonesig Collette Bowe sy'n arwain y gwaith, drwy'r Bwrdd Safonau Bancio, i sefydlu safonau yn yr agwedd bwysig iawn hon o'n bywydau. Ond, nid yw'n ymwneud â safonau moesegol yn unig; mae hefyd yn ymwneud â safonau cymhwysedd sy'n berthnasol i ymddygiad ym maes bancio yn ddyddiol.

Felly, wrth edrych ar yr hyn rydych yn ei olygu o ran 'safonau mewn bywyd cyhoeddus', mae'n hanfodol edrych ar y peth o safbwynt safonau moesegol, yn ogystal â safonau cymhwysedd o ran perfformio dyletswyddau. Mae'r ddau yn rhan o safonau mewn bywyd cyhoeddus. Yn benodol, wrth edrych ar safonau yn y farnwriaeth, safonau yn y Llywodraeth, a safonau yn y ddeddfwrfa, mae'n gwbl hanfodol bod y ddwy agwedd honno ar safonau mewn bywyd cyhoeddus yn dod at ei gilydd. Er enghraifft, byddai diffyg safonau moesegol uchel yn dwyn anfri ar sefydliad. Nid oes angen i mi ddweud mwy am hynny. Roedd y digwyddiadau yn San Steffan dros yr haf yn dangos pwysigrwydd safonau moesegol uchel. Rhaid i'ch cod ymddygiad chi—sydd wedi'i ddrafftio yn wych, â'r egwyddorion i weithredu gydag anrhydedd, rhyddid a rhag cymhellion ac ysgogiad allanol, ac ymddwyn yn unol â'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus—fod yn ganolbwynt o ran delio â safonau moesegol. Ond, nid oes angen imi ddweud mwy am hynny. Siaradodd yr Arglwydd Judge yn arbennig am sut y mae hynny'n ymwneud â safonau barnwrol pan oedd yma. Hoffwn ddweud ychydig mwy am y safonau sy'n ymwneud â hynny, yn ogystal â'r safonau o ran y ffordd y mae'n rhaid i sefydliad gael cymhwysedd. Rwy'n cyfeirio at 'sefydliadau' am fy mod yn meddwl, pan fyddwch yn adeiladu unrhyw genedl ac yn rhoi hyder mewn democratiaeth, mae'n bwysig iawn bod gan bobl hyder, nid yn unig mewn safonau moesegol uchel ond mewn gallu gwirioneddol y sefydliad i gyflawni ei waith penodedig.

Tua 15 mlynedd yn ôl, fe roddais ddarlith yr Arglwydd Morris o Borth-y-Gest gan drafod y diffyg sefydliadau yng Nghymru. Roedd yn amlwg bod Cymru wedi dioddef diffyg sefydliadau cynhenid. Roedd problem o ran datblygu sefydliadau cynhenid—sefydlu Llywodraeth weithredol briodol, sefydlu Cynulliad, a gweithrediad cywir y drydedd gangen o lywodraeth, y

farnwriaeth. Roeddwn o'r farn bryd hynny—ac nid yw hyn wedi newid—bod modd profi a ydym wedi bodloni safonau bywyd cyhoeddus cywir, yn unigol ac yn sefydliadol, yn ôl a ydym wedi creu hyder ymysg y cyhoedd mewn gwirionedd. Rwy'n credu mai un o'r rhesymau, gan edrych arno o safbwynt y farnwriaeth, sef fy mhrif gyfrifoldeb, oedd sicrhau ein bod wedi sefydlu hunaniaeth unigryw ar gyfer barnwriaeth Cymru, a oedd â dealltwriaeth, fel un o bwerau'r wladwriaeth, i ddehongli cyfreithiau a gwneud penderfyniadau teg a chyfiawn, gan roi ystyriaeth briodol i Gymru a'i hunaniaeth genedlaethol unigryw. Mae'r mater o farnwriaeth ar wahân i Gymru yn gwbl wleidyddol, ac ni fyddaf yn mynegi barn ar hynny, fel rwyf wedi gwneud yn glir, mae'r farnwriaeth yn gyffredinol o'r farn bod ganddi gyfrifoldeb penodol ac unigryw mewn perthynas â Chymru, fel un o'r tri sefydliad sy'n rhan o Lywodraeth Cymru yn yr ystyr ehangaf.

Felly, sut mae datblygu'r farnwriaeth, fel rwyf wedi'i disgrifio, a'i pherthynas â changen weithredol y Llywodraeth ym mharc Cathays a changen ddeddfwriaethol y Llywodraeth yma? Yn amlwg, mae meysydd lle mae'r safonau'r un fath ac yn gallu cael eu cyfeirio felly. Mae dwy enghraifft amlwg, gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Mae gennym hunaniaeth ddiddorol. Nid oes gwir wahaniaeth rhwng yr hyn mae'r farnwriaeth am wneud a'r hyn mae'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa am ei wneud, sef llunio deddfau dwyieithog priodol sy'n ddealladwy ac yn cael eu gorfodi drwy'r llysoedd. Enghraifft arall, er yn llai amlwg, yw amrywiaeth. Mae pob sefydliad bellach yn cydnabod bod amrywiaeth yn rhan hanfodol bwysig o fywyd cyhoeddus er mwyn meithrin hyder mewn sefydliad. Nid wyf am fynd i fanylder yn awr, gan fy mod wedi trafod y peth ar sawl achlysur yn ddiweddar. Ond, rwy'n gadarn o'r farn bod sicrhau amrywiaeth o fewn y farnwriaeth yn gwbl ganolog i'w gyfreithlondeb. Er bod barn wahanol gan bobl ynghylch pa mor gyflym y dylid mynd ar drywydd hyn, nid oes gennyf amheuaeth fod cyfrifoldeb rhagweithiol ar y farnwriaeth i ddatblygu hyn er mwyn sicrhau bod y farnwriaeth mor amrywiol ag sy'n bosibl, gan ystyried egwyddorion penodi ar sail teilyngdod. Ond, rhaid i'r un peth fod yn wir ar gyfer y Llywodraeth weithredol a hefyd y Cynulliad.

Rwyf wedi defnyddio'r iaith Gymraeg ac amrywiaeth fel dwy enghraifft lle, wrth lunio cyfansoddiad, gallwch weld bod ein buddiannau'r un fath a bod gennym yr un safonau. Ond, mae meysydd yn bodoli, er ein bod yn rhannu'r un safonau mewn bywyd cyhoeddus, lle mae'n buddiannau'n wahanol ac yn gorfod aros felly. Un o'r rhai pwysicaf i sôn amdano, am eiliad, yw

materion gwleidyddol. Mae'n rhaid i'r farnwriaeth fod yn annibynnol ar wleidyddiaeth. Pan fyddwch yn peidio â bod yn ymarferydd ac yn cael eich penodi yn farnwr, rydych yn rhoi'r gorau i ryddid. Y rhyddid pwysicaf y byddwch yn rhoi'r gorau iddo fydd y rhyddid i fynegi barn wleidyddol. Yn fy marn i, nid oes dim yn fwy trychinebus ar gyfer barnwriaeth, o ran ei annibyniaeth a'i statws yn y gymdeithas, na chymryd rhan mewn materion gwleidyddol. Mae hynny wedi dod i'r amlwg yn y DU ar hyn o bryd gyda'r materion yn ymwneud â'r Ddeddf Hawliau Dynol. Ond, yma yng Nghymru, mae un peth y dylwn sôn amdano, achos nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd rhywun yn holi am Fil Cymru, felly rwyf am achub y blaen arnynt.

Mae'n amlwg—wrth edrych ar gopi o'r *Western Mail* y bore yma—ei fod yn bwnc o ddiddordeb gwleidyddol dwys ac, yn ddiaw, o ddiddordeb dwys i'r cyhoedd. Ond, ni all barnwyr gymryd rhan yn y ddadl, ac eithrio yn yr ystyr mwyaf cyfyng. Mae ffurf a chynnwys y Bil yn hynod wleidyddol. Weithiau, bydd ffurf deddfwriaeth yn fater y gall barnwyr wneud sylwadau yn ei gylch, ac rydym yn gwneud hynny ar gyfer ystod o ddeddfwriaeth. A allwch chi weithredu, er enghraifft, system adolygu? A ellir gwneud hynny o fewn yr amserlen angenrheidiol? Neu, ynghylch opsiynau dedfrydu, rydym weithiau'n rhoi cyngor ynghylch beth fyddai'r canlyniadau. Ond, rwy'n ystyried hynny'n gyngor technegol iawn. Mae un maes yr wyf wedi mynegi barn yn ei gylch mewn perthynas â Bil Cymru, ac roedd hynny ynghylch ystyr y gair 'awdurdodaeth'. Ond, nid wyf o'r farn ei bod yn briodol i farnwr fynd ymhellach na hynny, ac felly, ymddengys i mi ei fod yn bwysig i annog y rhai sy'n gallu rhoi cymorth arbenigol—sef Canolfan Llywodraethiant Cymru, o ran y cyfansoddiad—i helpu gyda'r cwestiynau anodd o natur dechnegol, sydd mor agos at wleidyddiaeth nes ei bod yn amhosibl i farnwr allu cyfrannu. Dyna pam na fyddaf yn dweud wrthy ch a wyf yn cytuno â'u barn ai peidio. Ond, mae'n hynod bwysig eich bod yn cael trafodaeth arbenigol yn cynnwys y rhai sydd â'r rhyddid sydd ddim gan farnwyr.

Rwy'n sôn am y pwnc hwn oherwydd mae'n mynd â ni yn ôl at safonau mewn bywyd cyhoeddus. Gall barnwr, er ei fod yn rhan o'r cyfansoddiad ac yn rhan o dair cangen y Llywodraeth, ond ymdrin â materion penodol o'r safbwynt hwnnw. Mae'n safon y mae'n rhaid inni ei dderbyn. Fel Aelodau'r Cynulliad, rwy'n siarad yn fwy uniongyrchol â chi na'r rhai sy'n aelodau o'r Weithrediaeth. Ymddengys i mi fod eich cyfrifoldebau a'ch safonau chi, yn hynny o

beth, yn wahanol iawn i rai barnwyr; gwleidyddiaeth yw eich swydd; eich swydd yw cymryd diddordeb mewn meysydd gwahanol. Ond, mae safonau mewn bywyd cyhoeddus yn bwysig o ran sut rydych yn gweithredu mewn ffordd broffesiynol i lunio deddfau da. Weithiau, os caf i fod mor feiddgar â dweud—ac rwy'n beirniadu Senedd San Steffan hyd yn oed fwy yn hyn o beth—nid oes digon o sylw yn cael ei roi i wneud deddfwriaeth dda. Yn fy marn i, y ddyletswydd honno, fel rhan o safonau mewn bywyd cyhoeddus, sydd fwyaf pwysig o ran ein cyfansoddiad.

Mae pawb yn gytûn y dylai deddfwriaeth fod yn glir. Dylai fod yn gryno ac fe ddylai fod yn ddealladwy. Mae'n hawdd i mi ddweud hynny. Pe byddwn yn edrych ar y safon gyfatebol yn y farnwriaeth, byddwn yn dweud, 'Ein gwaith ni yw penderfynu ar achosion yn deg, yn gyflym ac mewn ffordd sy'n effeithiol o ran cost'. Rwy'n siŵr y byddai llawer ohonoch yn dweud bod achosion llys yn gallu cymryd llawer gormod o amser, na chafodd y penderfyniad iawn ei wneud wedi'r cyfan, a bod y cyfan wedi costio llawer gormod.

Fodd bynnag, rhaid anelu i fod yn glir am y safonau rydym yn cadw atynt. Un o'r pethau pwysicaf i mi oedd eich adroddiad diweddar ar ddeddfu yng Nghymru—adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol—a oedd yn nodi beth yw gwaith craidd deddfwrfa, sef gwella ansawdd y ddeddfwriaeth. Dyna un o'r safonau bywyd cyhoeddus pwysicaf y dylai'r rhai sy'n dod yn Aelodau'r Cynulliad anelu ato. Efallai na fydd hynny'n cyd-fynd â barn y cyhoedd ynghylch safonau mewn bywyd cyhoeddus; efallai y byddent o'r farn bod gwneud ffafr i rywun allan o'r cwestiwn. Mewn rhai gwledydd, byddech yn derbyn arian o dan y cownter fel rhan o'r safonau. Fodd bynnag, yn union fel gyda'r bancwyr, rhaid i chi edrych arnynt a dweud, 'Wel, rydym yn disgwyl iddynt fod yn onest, ond rydym hefyd yn disgwyl iddynt fod yn gymwys.' Rwyf o'r farn mai un o egwyddorion pwysicaf bywyd cyhoeddus yw, er eich bod yn dod â chymysgedd gwleidyddol, mewn gwirionedd, bod bywyd cyhoeddus yn mynnu eich bod

yn talu sylw agos at ansawdd y ddeddfwriaeth rydych yn ei chynhyrchu.

Mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith, sy'n gwneud cyfraniad enfawr i Gymru, yn ceisio trosglwyddo'r safon bywyd cyhoeddus hwn—beth bynnag yw'r gwahaniaethau gwleidyddol, rhaid i chi ddeddfu yn dda. Mae'n hawdd i mi ddweud hynny, a gwn eich bod oll â safbwyntiau gwleidyddol gwahanol iawn ynghylch deddfwriaeth. Fodd bynnag, y swydd broffesiynol, y safon o gynhyrchu deddfwriaeth dda yw'r canolbwynt.

Mae sawl ffordd o wneud hynny. Gall cenedl fach llawn egni wneud pethau na all cenedl fawr sydd â hanes maith ei wneud. Gallwch feddwl yn arloesol, gallwch fynd yn groes i batrwm San Steffan—mae'n eithaf rhyfeddol yn San Steffan, er enghraifft, nad ydynt yn defnyddio prosesu geiriau ar lawr y Tŷ. Os ydych yn newid rhywbeth, hyd yn oed y contract mwyaf elfennol, fe fyddech yn defnyddio prosesydd geiriau, ond, wrth gwrs, nid oedd wedi cael ei ddyfeisio ar yr adeg y cafodd llawer o'r confensiynau presennol eu pennu. Felly, nid oes gennych etifeddiaeth enfawr i gystadlu â hi.

Cefais y pleser mawr o rannu llwyfan yn gynharach eleni gyda Syr Geoffrey Palmer, cyn Brif Weinidog Seland Newydd. Mae llawer y gallwn ei ddysgu o Seland Newydd, ar wahân i rygbi. Mae rhai o'r syniadau a gynigiodd ef—er enghraifft, swyddfa ddeddfwriaeth—yn werth edrych arnynt fel rhan o berfformiad y safon hynod bwysig hon: cynhyrchu deddfwriaeth dda.

Felly, sut mae hyn yn dod â ni nôl i le dechreuais, sef y tair cangen o'r Llywodraeth a sut maent yn gweithio gyda'i gilydd? Ymddengys i mi, os oes gan ddeddfwrfa'r safonau uchel arferol o ran ymddygiad moesegol, ond hefyd dealltwriaeth o'i dyletswydd i gynhyrchu deddfwriaeth dda, a barnwriaeth sy'n barod i helpu wrth edrych ar faterion technegol a chwestiynau o ran sut

rydych yn ymdrin â materion, a chyn belled â bod pawb yn deall eu priod rolau—eich swydd chi yw gwleidyddiaeth a swydd barnwyr yw cadw i ffwrdd wrth wleidyddiaeth yn gyfan gwbl—mae llawer iawn y gellir ei wneud ar y cyd i adeiladu strwythur cyfraith a pholisi a fydd, o bosibl, o werth aruthrol i ddatblygiad cenedl, yn enwedig ei ffyniant a'i heconomi.

Felly, gyda'r ddealltwriaeth hynny o'n swyddogaethau, rwy'n gobeithio'n fawr, dros y blynyddoedd i ddod, y bydd llawer mwy o gydweithio a chydweithio agosach. Erbyn hyn, mae codau ymddygiad clir rhwng San Steffan a Whitehall, ac rydym yn ymgysylltu ac yn rhoi tystiolaeth i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Rydym yng nghanol y broses, sydd bron wedi'i chwblhau, o ddrafftio codau ymddygiad perthnasol ar gyfer delio gydag adrannau Llywodraeth. Mae gennym ddealltwriaeth gyffredinol gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac rydym wedi delio â hwy ers blynyddoedd lawer, ond roedd yn bryd ei roi ar bapur. Rwy'n gobeithio'n fawr, gyda'r ddealltwriaeth gyffredin honno, gan dderbyn bod yn rhaid i bob ochr ddeall y gwahaniaethau ac arfer safonau moesegol uchel iawn, y gall yr ymgysylltiad rhwng y sefydliadau yn y farnwriaeth a'r deddfwrfa symud ymlaen.

Rwyf wedi canolbwyntio ar berthynas y deddfwrfa a'r farnwriaeth. Roeddwn i'n meddwl y byddai'n well i siarad am hynny yma yn yr adeilad hwn, ond *mutatis mutandis*, os caf sôn yn Lladin, sydd bob amser yn ddefnyddiol iawn, mae'r un peth yn berthnasol i'r berthynas gyda'r Weithrediaeth. Cyhyd ag y glynir at y safonau—safonau cymhwysedd a moeseg—gellir gwneud llawer i sicrhau bod canghennau amrywiol y Llywodraeth yn cydweithio'n agos. Mae gan bobl Cymru'r hawl i ddisgwyl hynny. Maent yn disgwyl i'r Cynulliad gynhyrchu—. Maent yn disgwyl i'r Llywodraeth, â'r weithrediaeth, gyflwyno neu gynnig deddfwriaeth a fydd yn gweithio. Maent yn disgwyl gwaith craffu o'r radd flaenaf, nid yn unig o'r safbwynt cyffredin ynghylch moeseg, ond hefyd o ran safonau cymhwysedd a chraffu manwl. Yna, maent yn disgwyl i'r barnwyr, ar y diwedd, ddehongli hynny'n gywir ac yn deg. Rwy'n gobeithio ein bod yn cymryd camau—ac rwy'n siŵr y byddwch yn dweud wrthyf os nad ydym—i sicrhau y bydd y farnwriaeth yn gwneud ei rhan i gynnal y safonau hyn sydd mor bwysig i'n cymdeithas yn gyffredinol. Gobeithiaf yn fawr hefyd, er enghraifft, yn ôl eich adroddiad diweddar, bod dealltwriaeth wirioneddol o'r angen i gynhyrchu deddfwriaeth dda ac i'r weithrediaeth i gyflwyno deddfwriaeth dda. Ond, mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd. Mae'n rhaid i ni ddeall ein swyddogaethau unigol, a sut y maen nhw'n wahanol, a cheisio peidio â thresmasu ar ein gilydd. Ond, drwy gynnal safonau uchel, a thrwy wir ddealltwriaeth o rolau ein gilydd, rwy'n gobeithio, erbyn y bydd olynedd Gerard Elias yn cyflwyno'r drydedd neu'r bedwaredd ddarlith ar safonau mewn bywyd cyhoeddus, y byddwn wedi llwyddo i gyflwyno'r safonau yn llawer ehangach ar lefel fwy ymarferol, fel eu bod o fudd i bobl Cymru, nid yn unig o ran pobl yn ymddwyn yn foesegol,

ond pobl sydd wir yn cydweithio er lles gwell cyfansoddiad. Diolch.

Gerard Elias QC: Diolch i'r Arglwydd Thomas am ei anerchiad craff. Rwy'n falch iawn ei fod wedi sôn am safonau perfformiad yn ogystal â safonau moesegol. Fel y gwyddoch, fy marn i, fel mae fy adroddiad blynyddol diweddaraf yn nodi, yw mai hyder y cyhoedd mewn sefydliad sy'n hanfodol. Mae hynny'n dod, wrth gwrs, oherwydd bod Aelodau'n ymddwyn yn foesegol neu beidio, ond hefyd oherwydd bod ganddynt hyder yn yr hyn sy'n cael ei ddarparu ar eu cyfer. Felly, mae hynny'n agwedd bwysig iawn y byddaf yn edrych ymlaen at ei datblygu yn ystod fy mlwyddyn olaf.

Nawr, rwy'n gwahodd Mick Antoniw, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Cynulliad Cenedlaethol, i ymuno â ni ar y llwyfan, ac rwy'n gwahodd unrhyw gwestiynau gennych chi am agweddau ar safonau mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru, a byddwn yn ceisio eich ateb. Fel y gwyddoch, ni all yr Arglwydd Brif Ustus na minnau wneud sylwadau ar yr arena wleidyddol, ond byddwn yn gwrandao ar eich cwestiynau ac yn eu hateb fel y gallwn.

Mick Antoniw AC: [*Anhyglyw.*]*—*yma hefyd.

Gerard Elias QC: Wrth gwrs. Gallwch holi yn Gymraeg neu Saesneg, mae cyfieithu ar y pryd ar gael, ac mae gennych glustffonau os bydd angen. Felly, a oes cwestiwn cyntaf, os gwelwch yn dda? Ie. Os gallech nodi eich enw a'r sefydliad rydych yn gweithio iddo, byddai hynny o gymorth.

Mr Chick: Helo, John Chick ydw i. Rwy'n gweithio yn y Cynulliad. Fi yw pennaeth y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau. A yw'r Comisiynydd yn rhagweld sut y bydd yr Aelodau Cynulliad newydd a fydd yn dod y flwyddyn nesaf yn cael eu cynefino er mwyn dod yn ymwybodol o'r cod ymddygiad?

Gerard Elias QC: Rwy'n gobeithio y bydd cynefino ffurfiol. Mae'r Prif Weithredwr yma, ac mae wedi cynnal sesiynau cynefino yn y gorffennol ar gyfer Aelodau newydd. Rwy'n gwybod y bydd sesiynau cynefino i Aelodau newydd ym mis Mai, ac rwy'n credu y bydd cryn dipyn o Aelodau newydd, yn anochel, oherwydd bod llawer o'r Aelodau presennol yn ymddeol. Rwy'n sicr yn gobeithio y bydd safonau yn rhan o'r cynefino i Aelodau newydd. Efallai na ddylwn ddweud gormod, ond yn y gorffennol, nid oedd Aelodau efallai mor awyddus i ddod i glywed sgwrs am safonau o'i gymharu â phynciau cynefino eraill. Mick, fel Cadeirydd y pwyllgor, efallai y gallech chi bwysleisio'r pwysigrwydd bod Aelodau'n cymryd rhan yn hyn.

Mick Antoniw AC: Rwy'n gwneud hynny. Rwy'n siŵr y bydd yn rhan fawr ohono i nifer o Aelodau newydd. Rydym wedi gweld, ymysg llawer o'r bobl sy'n ymgeiswyr posibl i ddod yma, y bydd ystod eang o sgiliau penodol yn ogystal. Ond, yn yr un modd, rhan o'r ffordd rydym wedi edrych ar ymddygiad a safonau yw edrych ymlaen. Wrth gwrs, wrth i gyfrifoldebau'r sefydliad hwn gynyddu, a bod ffocws ar hynny, mae angen bod yn fwy gwylidwrus fyth. Un o'r diwygiadau mawr y mae Gerard wedi cyflwyno wrth feddwl am ein cod yw rhoi llawer mwy o gyfrifoldeb ar yr Aelodau'r Cynulliad eu hunain i benderfynu beth y mae'n rhaid iddynt ddatgan, beth sydd ganddynt i ddweud, beth yw'r ffiniau, yn hytrach na cheisio—a methu, fel sydd wedi digwydd mewn sawl deddfwrfa dros y blynyddoedd—ysgrifennu i lawr pob enghraifft bosibl o'r hyn y dylech ac na ddylech ei wneud. Weithiau, mae'n haws mynd yn ôl at yr egwyddorion sylfaenol y mae'n rhaid i bobl eu deall a glynu atynt, er mwyn deall yr hyn y maent yn ymrwymo iddo.

Gerard Elias QC: Arglwydd Thomas, a oes cynefino ffurfiol ar gyfer barnwyr newydd?

Yr Arglwydd Thomas: Oes. Beth sy'n ddiddorol ar hyn o bryd, yn San Steffan, yw bod llawer o farnwyr newydd wedi dechrau. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor Cyfiawnder bron yn gyfan gwbl newydd. Mae gan San Steffan yr Industry and Parliament Trust, corff a sefydlwyd gan ddiwydiant i geisio sicrhau bod Aelodau Seneddol nad ydynt yn gwybod am faes penodol yn cael dysgu am y pwnc. Er enghraifft, drwy dreulio amser yn dysgu am ddiwydiant penodol. Fe wnaethom ymuno â hynny yn ddiweddar, er mwyn bod aelodau'r Pwyllgor Cyfiawnder, er enghraifft, yn gallu dod i eistedd yn y llysoedd. I fynd yn ôl at fy thema ganolog, sef cymhwysedd, ar wahân i unrhyw beth arall, mae'n bwysig iawn, pan fyddwch yn deddfu am rywbeth, eich bod yn deall y pwnc rydych yn deddfu yn ei gylch. Mater i chi fydd perswadio rhywun yma i ariannu menter o'r fath, ond mae'n rhywbeth pwysig iawn i'w wneud, yn fy marn i, i sicrhau bod y rhai sy'n delio â phwnc penodol â dealltwriaeth ddofn a phriodol ohono. Byddwn yn dweud, yn ddiâu, y gellir ei wneud drwy Mrs Ustus Nicola Davies, neu ein swyddfa yn Llundain a fy ysgrifennydd preifat. Os oes Aelod o'r Cynulliad yn awyddus i ddod i eistedd mewn llys i weld beth sy'n digwydd mewn gwirionedd—rydym yn gwneud hyn ar gyfer Aelodau Seneddol ar hyn o bryd, a byddem yn ddigon hapus i wneud yr un peth ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Gareth Hughes: Diolch yn fawr. Gareth Hughes o gylchgrawn *Go!wg*. Wrth i fwy a mwy o bwysau a Deddfau ddod allan, sut ydych chi'n gweld y sefydliadau yng Nghymru yn datblygu pan mae'r Deddfau yma'n dod? Sut mae'r gyfraith yn mynd i newid? A oes yna draddodiad newydd yn mynd i godi o ran y gyfraith yng Nghymru ar ôl inni weld cymaint o Ddeddfau newydd?

Garet
more
when
relatio

Gerard Elias QC: Arglwydd Thomas.

Gareth
o gylc
bwysa
gweld
pan m
gyfrai
dradd
gyfrai
o Dde

Yr Arglwydd Thomas: Rwyf am ateb yn Saesneg, gan fod hynny'n haws i mi. Mae pob system gyfreithiol yn gweithredu o fewn diwylliant y gymdeithas neu'r wladwriaeth honno. Nid oes amheuaeth am y ffordd y mae deddfau wedi datblygu. Gan ein bod yn byw mewn byd cynyddol fyd-eang, mae sawl maes cyfreithiol yn dod at ei gilydd—er enghraifft, y gyfraith yn ymwneud â llawer o weithgarwch masnachol. Mae hynny'n gweithredu ar sail fyd-eang, ond mae cymaint o'r gyfraith ynghlwm yn agos â chymdeithasau unigol, yn yr amgylchiadau hynny, mae angen sicrhau bod barnwyr yn datblygu'r gyfraith gyda dealltwriaeth o'r genedl dan sylw. [*Torri ar draws.*] Mae'n ddrwg gennyf, rwy'n eistedd mewn llys o'r maint hwn heb unrhyw beth, felly rwy'n gobeithio bod pawb yn gallu clywed. Dyna pam mae'n bwysig iawn, ar y lefelau o'r farnwriaeth lle caiff penderfyniadau eu gwneud sy'n cyfeirio at ran benodol o genedl, bod y farnwriaeth yn ei ddeall mewn gwirionedd. Dyna un o'r rhesymau pam roeddwn yn hynod bryderus bod y bobl sy'n cael eu penodi fel barnwyr sy'n eistedd yng Nghymru yn deall mewn gwirionedd y trywydd mae Cymru wedi dilyn—mae ganddi ddeddfwrfa wahanol ac mae'n creu deddfau gwahanol—a bod hynny'n cael ei adlewyrchu yn y ffordd mae cymdeithas yn gweithredu yng Nghymru.

Hefyd, wrth fynd i'r brig, Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig dyweder, mae'n bwysig iawn cael barnwyr yno sy'n deall Cymru mewn gwirionedd oherwydd, yn anochel, er bod rhannau helaeth o'r gyfraith yr un peth ledled gwledydd, mae rhai meysydd yn wahanol. Mae'n rhaid i gyfraith gael ei datblygu gyda dealltwriaeth o gymdeithas—rhaid i chi ddeall y gymdeithas rydych yn gweithredu ynddi, neu ni allwch ddeddfu'n gywir. Er fy mod yn gobeithio, fel roeddwn yn ceisio dweud, y bydd y Cynulliad yn pasio deddfau rhagorol sydd angen ychydig iawn o ddehongli—byddai hynny'n dirwedd iwtopaidd nad yw neb wedi'i dychmygu, felly byddai'n rhaid i farnwr ddefnyddio ei sgiliau dehongli—byddai'n rhaid iddo fod yn ddehongliad gan bobl sydd wedi'u seilio yn y gymdeithas sydd â'i deddfwrfa ei hun.

Mick Antoniw AC: Wrth i ni basio mwy a mwy o deddfau, a deddfau mwy cymhleth, mater bydd yn rhaid i'r Cynulliad edrych arno fydd a yw pobl yn deall yr hyn sy'n digwydd a beth sy'n cael ei basio, a hefyd i gael pobl sydd â mynediad at gyfiawnder yn ogystal. Y peth yw, gallwn basio unrhyw beth yr hoffwn, ond os nad yw pobl yn cael mynediad at hynny, yna nid oes ganddynt unrhyw gysylltiad â hynny. I mi, y gyfraith yw olew cymdeithas—yr hyn sy'n galluogi cymdeithas i weithio—ac mae ansawdd yr olew hwnnw, i ryw raddau, yn cyfrannu at ansawdd y gymdeithas.

Wrth gwrs, mae gennym Weinidog o fewn Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros gyfiawnder, ac rwy'n cadeirio grŵp rhanddeiliaid sy'n edrych ar y meysydd hynny y dylai Llywodraeth Cymru roi sylw iddynt, yn ogystal â sut y gallwn ddatblygu deddfau yn wahanol yng Nghymru, o bosibl ym maes cyfiawnder gweinyddol. Mae rhywfaint o gyfrifoldeb triwilysoedd eisoes gyda Chymru—mae gennych awdurdodaeth embryonig sydd eisoes yn bodoli yno. Felly, o ran beth yw eu rôl, sut maent yn gweithredu, a ydym am barhau â'r rôl wrthwynebus, yn enwedig o gofio bod nifer o'r cyrff hyn, yn enwedig ym maes cyfiawnder gweinyddol, yn bodoli mewn amgylchedd sydd ag ychydig o gymorth neu gefnogaeth ar gael i unigolion i sicrhau—. Felly, o fewn yr amgylchedd hwnnw, pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod pobl yn cael cyfiawnder mewn gwirionedd? Felly, mae digon o gyfle inni edrych ar sut y gallwn wneud pethau'n wahanol, wrth gydnabod nad ydym am greu rhaniadau artiffisial na fydd o

reidrwydd o fantais i Gymru yng nghyd-destun datblygiadau cyfreithiol.

Gerard Elias QC: Diolch yn fawr am y cwestiwn. A oes unrhyw gwestiwn arall, os gwelwch yn dda? Oes, syr.

David Richards: David Richards o Lywodraeth Cymru. Roeddwn yn gwerthfawrogi'n fawr y cysylltiad a wnaeth yr Arglwydd Thomas rhwng safonau a gwerthoedd a chyfraith dda, oherwydd mae'n gosod gwerthoedd ar y blaen, yn hytrach na rhywbeth i droi ato pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le. Mae hynny wedi bod yn hynod bwysig o safbwynt bywyd cyhoeddus a safonau wrth i ddatganoli esblygu. A oes mwy y gallwn ei wneud mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru ac yn y DU i hyrwyddo ein codau ymddygiad a'n safonau a'n gwerthoedd fel rhywbeth sy'n ein codi fyny neu'n ein hysgogi i fod yn well, yn hytrach na rhywbeth sydd ei angen pan fydd problem?

Gerard Elias QC: Fel y dywedais wrth gyflwyno hyn, rhan o fy nhasg i yw sicrhau bod safonau yn cael eu cynnwys a'u trafod mewn meysydd sy'n mynd y tu hwnt i foeseq ac yn y blaen. Rwy'n awyddus i fynegi'r farn honno mor aml ag y gallaf, ac i Aelodau'n unigol ac mewn grwpiau. Ond beth arall y gallwn ei wneud, Arglwydd Thomas?

Yr Arglwydd Thomas: Mae gan bobl yr hawl i ddisgwyl pobl cymwys i fod yn gyfrifol am

lywodraethu. Rydych yn cymryd yn ganiataol na fyddech byth yn penodi rhywun yn farnwr os nad oedd yn gyfreithiwr cymwys. Mae angen sicrhau, o fewn canghennau gweithredol a deddfwriaethol y Llywodraeth, bod gennych amgylchedd sy'n denu'r bobl orau. Mae y tu hwnt i fy rôl i fynegi'n gyhoeddus sut y byddwn yn sicrhau hynny, ond mae'n hanfodol bod pobl wirioneddol dda yn mynd i mewn i wleidyddiaeth. Mae'n hanfodol bod pobl wirioneddol dda yn mynd i mewn i Lywodraeth, ac mae sawl ffactor yn dylanwadu ar hynny, oherwydd mae sefydliadau'r Llywodraeth, beth bynnag yw eich barn ar sut y caiff y farchnad ei gweithredu, yn dal i chwarae rhan fawr ym mywydau pobl, ac mae angen i chi sicrhau eu bod yn cynnwys pobl â'r safonau uchaf o ran gonestrwydd, ymddygiad moesegol a chymhwysedd, neu ni fydd y genedl yn ffynnu. Byddwn yn mentro i'r byd gwleidyddol pe byddwn yn ceisio datrys hynny, yn hytrach na dweud, 'Wel, mae gen i farn glir ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd, ond ni allaf ei fynegi'.

Gerard Elias QC: Mick, efallai y gallwch chi?

Mick Antoniw AC: Ar draws yr holl bleidiau, nid wyf wedi dod ar draws unrhyw un yn y Cynulliad eto—ac rwy'n dweud 'eto' achos y gallai hynny newid—. Mae pobl yma, yn fy marn, i ar gyfer y rhesymau gorau. Maent eisiau'r ansawdd, safonau a'r cymhwysedd uchaf. Rhaid cofio ei fod yn sefydliad democrataidd sy'n cynrychioli pobl. Roedd hi'n wych, ar ôl 30 mlynedd fel cyfreithiwr, a gorfod gwranddo ar jôcs am gyfreithwyr ym mhob man, dod i sefydliad lle'r oedd pobl yn dweud, 'Grêt, mae cyfreithiwr wedi dod yma'. Roedd hynny'n ardderchog. Ar ôl dweud hynny, mae'n bwysig nad yw'n holl sefydliadau'n llawn cyfreithwyr. Mae pobl hynod gymwys a galluog i gael nad ydynt yn gyfreithwyr, sy'n gweithio mewn amrywiaeth o swyddi a

diwydiannau, ac mae'n bwysig eu bod yn cael eu denu at y sefydliad hwn er mwyn cyfrannu eu sgiliau a'u profiad bywyd iddo. Rwyf wedi dweud ers blynyddoedd nad yw'r undebau llafur yn gwneud digon i gyflwyno pobl alluog a gweithgar i wleidyddiaeth. Mewn rhai ffyrdd, mae ein sefydliad—a byddwn yn barnu San Steffan yn yr un modd—wedi dod yn anghybwys, ac mae angen newid hynny. Nid creu llwybrau i gyfreithwyr yn unig ydyw. Mae'n ddefnyddiol iawn ac yn bwysig cael pobl â sgiliau cyfreithiol yma, ond rhaid hefyd cynrychioli'r sgiliau, arbenigedd a phrofiad bywyd sydd gan bobl eraill, fel bod y sefydliad yn cynrychioli pobl a bod gan bobl gyswllt a dealltwriaeth â'r sefydliad.

Gerard Elias QC: Diolch. Ian.

Ian Murphy QC: [*Anghlywadwy.*]—bargyfreithiwr ac aelod o'r cyhoedd, pwrpas y cod a'r safonau ymddygiad cyffredinol, pa mor anodd fyddai trosi hynny yn asesiad gwrthrychol o gymhwysedd, sy'n amlwg yn rhywbeth hynod ddymunol? Sut ydych chi, fel Comisiynydd, yn llunio barn am gymhwysedd?

Gerard Elias QC: Fel y byddwch wedi gweld, roeddwn yn mynd i godi hyn gyda'r ddau westai, achos rwy'n credu ei fod yn agwedd bwysig. Fel y dywedais yn fy adroddiad blynyddol, Ian, fel

y byddwch o bosibl wedi darllen, fe fues ar ymweliad â'r Comisiynydd cyfatebol yn Senedd yr Unol Daleithiau, ac mae hithau a minnau yn cael yr un faint o gwynion gan aelodau o'r cyhoedd yn flynyddol—sef tua 30—ac mae tua hanner y cwynion hynny gan aelodau o'r cyhoedd yn cwyno am berfformiad yr un Aelod. Hynny yw, gallai fod yn rhywbeth mor syml â, 'Ddim yn ateb llythyrau', neu, 'Ddim yn ateb y ffôn', neu yn fwy cymhleth, 'Ddim yn mynd i'r afael â'r mater rwyf wedi codi'.

Rwyf wedi bod yn araf iawn i neidio ar Aelodau o ran materion perfformiad, mae'n anodd iawn peidio â chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd os ydych yn dweud wrth Aelodau, 'Dyma beth mae'n rhaid i chi ei wneud: rhaid i chi ateb llythyrau, rhaid i chi ymateb erbyn yr amser hwn'. Byddai trefn o'r fath yn faich enfawr ar Aelodau. Efallai mai dyna'r peth iawn i'w wneud, a dyma farn Comisiynydd Senedd yr Unol Daleithiau a minnau, yn sicr, mae mwy o bwysau—mae'n agwedd arall, ychydig yn wahanol i'r hyn y cyfeiriodd yr Arglwydd Brif Ustus ato heddiw—ond mae'n agwedd arall ar berfformiad y gallai Aelodau deimlo bod safon i'w gyrraedd a'i gynnal er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd hyder yn y sefydliad.

I ddod yn ôl at eich cwestiwn, byddai sefydlu cod i ddelio â hynny yn anodd iawn, iawn. Rydym yn sicr yn disgwyl i Aelodau, fel nododd adroddiad blynyddol eleni, 'Os nad ydych yn ateb eich llythyron, os nad ydych yn ateb eich etholwyr, os nad ydych yn gwneud yr hyn y mae eich etholwr yn ei ddisgwyl yn gyfreithlon; yna rydych yn gostwng enw da'r sefydliad ac yn gostwng enw da'r Aelodau, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn awyddus i'w osgoi'. Ond, byddai rheoleiddio; efallai dros amser—. Mick, efallai y gallaf ddod atoch chi yn gyntaf.

Mick Antoniw AC: Ie. Mae hyfforddiant parhaus yn rhan o hyn. Rhaid cydnabod beth yw rôl Aelodau'r Cynulliad, a bydd pobl sy'n dod i mewn angen hyfforddiant, yn union fel cyfreithwyr pan maent yn dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu practis—maent yn gyfreithwyr da ond erioed wedi rhedeg busnes—mae'n arferol i gael hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'n faes—sydd eisoes wedi cael ei drafod ymysg pwyllgorau, yn enwedig o ran cadeiryddion ac yn y blaen—ac yn fater parhaus y gallwn ei ddatblygu.

Byddwn i'n dweud bod angen inni fod yn ofalus iawn o ran safonau, i sicrhau nad ydynt yn amharu ar ein system etholiadol ddemocrataidd. Yn y pen draw, y bobl sy'n penderfynu a ydynt

eisiau'r person maent yn ethol—ac a yw'n gymwys—y bobl hynny sy'n pleidleisio ac yn penderfynu eich rhoi yn y rôl honno. Mae'n bwysig iawn nad ydynt yn amharu ar hynny. Ond, unwaith mae pobl wedi cyrraedd, mae sawl ffordd y gallwn eu cynorthwyo i gyflawni eu rôl i'r lefel uchaf sy'n rhesymol bosibl.

Yr Arglwydd Thomas: Mae gennyf ddau ateb ar wahân. O ran yr hyn y byddwn i'n ei ystyried fel ymateb i etholwyr, mae ffordd synhwyrol y gallwn osod meincnodau: yr hyn y mae gan bobl yr hawl i'w ddisgwyl. Mae'n dda i'r Aelod wybod beth y dylai anelu ato, ac mae hefyd yn dda ar gyfer yr etholwyr. Fel y gwyddoch, mae torreth o e-byst yn cael eu hanfon, a byddai'n ofnadwy pe byddai disgwyl ichi ymateb iddynt i gyd yn syth, achos ni fyddai amser gennych i wneud eich swydd, ond os byddai rhyw fath o amserlen—. Yr hyn y gallai pobl ei ddisgwyl—. Yn enwedig gyda rhaniad y swyddogaethau yma a'r swyddogaethau yn San Steffan, byddai'n eithaf defnyddiol cael rhyw fath o ganllaw clir o ran yr hyn y mae gan y cyhoedd yr hawl i'w ddisgwyl. Wrth gwrs, nid fy lle i yw dweud beth ddylent ddisgwyl wrth bobl yn San Steffan.

Yn ail, o ran cymhwysedd, rwy'n cytuno'n llwyr â'r Cadeirydd ei bod yn bwysig iawn mewn democratiaeth i adael y dewis—rhaid ichi adael y dewis i'r bobl. Ond, mae dau beth sy'n bwysig. Un yw gwneud y sefydliad yn un y mae pobl yn dyheu i ymuno ag ef: 'Mae hwn yn glwb', gallech ddweud, 'y byddwn i'n hoffi bod yn aelod ohono. Dyna beth fyddai copa llwyddiant'. Un peth sy'n ofnadwy o bwysig yw ethos y lle. Yn ail, pan fydd pobl yn dod ac mae ganddynt gyfrifoldeb, yna rydych yn eu helpu i ddysgu. Yn sicr, nid ydym eisiau sefydliad yn llawn cyfreithwyr—ni allaf feddwl am unrhyw beth gwaeth. Mae sawl deddfwrfa yn America yn llawn cyfreithwyr. Mae angen bancwyr, diwydianwyr a phobl sy'n cynrychioli pob math o gefndiroedd. Maent yn dod yma, ac yn enwedig pan fyddant yn anelu at gyfrifoldeb penodol, mae angen cymorth arnynt i ddysgu am faterion y tu allan i'r lle hwn y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt. Er enghraifft, os oes gennych gyfrifoldeb, dyweder, ar gyfer yr amgylchedd, byddai disgwyl i'r Cynulliad allu helpu gyda threfniant, fel yr Industry and Parliament Trust, er mwyn ichi allu gweld dwy ochr y stori. Mae'r dyhead i fod yn aelod o'r sefydliad hwn, a hefyd cynnig help gyda meysydd o ddiddordeb, yn ddwy ffordd y gellir codi safonau, ond rhaid chi adael i'r bobl ddewis. Nid yw'r bobl yn anghywir.

Gerard Elias QC: Iawn, y cwestiwn olaf, os gwelwch yn dda.

Rachel Flint: Helo. Rachel Flint o'r *Daily Post*. A oes y fath beth â Deddf neu ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ddibwrpas neu hyd yn oed yn niweidiol?

Gerard Elias QC: A oes y fath beth â deddfwriaeth sy'n ddibwrpas neu hyd yn oed yn niweidiol?
[*Chwerthin.*]

Yr Arglwydd Thomas: Cafodd deddfwriaeth ei gynnig yn y Senedd ddiwethaf yn San Steffan a gafodd ei ddisgrifio fel bod yn hollol ddibwrpas gan rai o Aelodau Tŷ'r Arglwyddi. Ni allaf ddweud a oeddwn yn cytuno â hwy ai peidio. Dylai'r holl ddeddfwriaeth sy'n cael ei basio gan y Senedd fod yn rhywbeth y mae'r Senedd ei angen, ac felly mae'n rhaid ei orfodi. Fy lle i, fel barnwr, yw cael parch barnwrol hollol ar gyfer ewyllys ddemocrataidd y bobl wrth ddeddfu yn y ffordd y maent wedi gwneud. Efallai y gall un o'r lleill ateb y cwestiwn hwnnw, ond rhaid i mi ddatgan parch llwyr. Os ydych am weld dadl am ddarn o ddeddfwriaeth hollol ddibwrpas ym marn ei gwrthwynebwr, roedd enghraifft dda iawn ym misoedd olaf y Senedd ddiwethaf yn San Steffan.

Gerard Elias QC: A fyddai gwleidydd yn cyfaddef y fath beth? Fe ofynnaf i Mick.

Mick Antoniw AC: Weithiau, rydym yn deddfu pan nad oes efallai angen deddfwriaeth i gyflawni rhywbeth, ond mae'n briodol i wneud, oherwydd ei fod yn codi proffil. Hefyd, mae gennym—ac mae hyn wedi codi yn y Cynulliad—ddeddfwriaeth sy'n uchelgeisiol ac am newid diwylliant. Byddwn i'n dweud hynny am y Ddeddf trawsblannu organau. Mae hynny wedi rhoi dyhead am ddarn sifil iawn o ddeddfwriaeth mewn fframwaith deddfwriaethol. A oedd angen deddfwriaeth, yn benodol, i wneud hynny? Fe allech ddweud, 'Na, efallai bod ffyrdd eraill y gallem gynyddu ymrwymiad pobl', ac ati, ond fe ddarparodd fframwaith ar gyfer y ddadl, ac mae hynny wedi bod yn hynod lwyddiannus o ran newid sut rydym yn meddwl am fater pwysig iawn.

Mae darn pwysig iawn arall o ddeddfwriaeth nad yw Llywodraeth Cymru hyd yn oed wedi gwerthfawrogi ei bwysigrwydd, yn fy marn i, sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mewn rhai ffyrdd, mae'n gymysgedd o ddeddfwriaeth fframwaith Ewropeaidd a deddfwriaeth Brydeinig draddodiadol. Erbyn hyn, mae deddfwriaeth Gymreig wedi arwain ac wedi gosod fframwaith ar gyfer yr holl ddeddfwriaeth arall a'r holl ddyletswyddau eraill a fydd yn cael eu cyflawni—gan gynnwys sawl offeryn statudol a mathau eraill o is-ddeddfwriaeth sy'n digwydd—gydag amcan cymdeithasol eang.

Yn aml, mae eich gwleidyddiaeth yn penderfynu a ydych yn credu bod darn o ddeddfwriaeth yn dda neu'n ddrwg, yn ddefnyddiol neu'n ddiwerth. Ni allaf wadu fy mod yn credu bod rhai Deddfau'n gwbl erchyll ac rwyf wedi siarad amdanynt yn y Cynulliad. Ond, mae hynny oherwydd fy marn i am gynnwys y ddeddfwriaeth a'i heffaith. Byddai safbwynt gwahanol gan bobl eraill. Beth sy'n glir iawn, fodd bynnag, yw bod y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn brofiad dysgu pwysig iawn ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd. O ystyried ein bod yn sefydliad mor fach, mae ansawdd y ddeddfwriaeth a'r gwaith craffu a'r broses ddysgu wedi bod yn anhygoel. Rwyf wedi eistedd i mewn adeg sesiynau deddfu yn San Steffan ac ati, ac mae pwyntiau da a

phwyntiau drwg i'r system, ond mae'r ansawdd cyffredinol wedi bod yn wych a, gyda phobl newydd ac ati, rydym yn dechrau datblygu yn ddeddfwrfa o ansawdd.

Gerard Elias QC: Thank you very much. Dyna ddiwedd ar y cwestiynau, ond diolch yn fawr iawn am y cwestiynau defnyddiol. Mae'r Arglwydd Thomas wedi dod o ddigwyddiad pwysig; ac mae'n mynd ymlaen i ddigwyddiad pwysig arall. Ond, yma ar y llawr uchaf, cyn iddo fynd, darperir cinio ysgafn a phaned. Mae'r Arglwydd Thomas wedi dweud yn garedig iawn ei fod yn hapus i barhau i sgwrsio. Mae croeso i bawb ymuno â ni, ond hoffem ddiolch i Mick Antoniw a'r Arglwydd Brif Ustus yn benodol am ei ddarlith ac am roi rhywbeth inni feddwl amdano wrth ddatblygu'r materion hyn. Diolch yn fawr iawn. [*Cymeradwyaeth.*]